The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn Cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah |
| **Cyfeirnod Ffeil** | EN010166 |
| **Statws** | Terfynol |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 03 Gorffenaf 2024 |
| **Cyfarfod gyda** | Uniper UK Limited (yr Ymgeisydd) |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y Cyfarfod** | Cyfarfod Diweddariad y Prosiect |
| **Cylchrediad** | Yr holl fynychwyr |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddwyd o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

**Diweddariad ar newidiadau i'r cynllun/dyluniad**

Dywedodd yr Ymgeisydd fod y dyluniad/cynllun wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys tir i hwyluso llwybr Llwyth Anrhanadwy Annormal (AIL) o'r porthladdoedd, gan gynnwys Porthladd Gogledd Cei Connah (i'r gogledd-ddwyrain o'r Orsaf Bŵer), Porthladd Mostyn (i'r gogledd o'r Orsaf Bŵer ar hyd Afon Dyfrdwy) ac Ellesmere Port (Camlas Llongau Manceinion). Eglurodd yr Ymgeisydd fod y tir yn y porthladdoedd hyn a'r fynedfa ffordd oddi wrthynt ar gyfer hwyluso cludo deunyddiau ac offer i'r prif safle. Ychwanegodd yr Ymgeisydd na fwriedir gwneud unrhyw waith parhaol gwirioneddol o fewn y porthladdoedd nac ar hyd y llwybr AIL o Ogledd Cei Connah neu Ellesmere Port i'r Prif Safle, ac mai dim ond mân waith dros dro sydd ei angen (e.e. gwaith coed, tynnu arwyddion ffordd) ar hyd rhannau'r llwybr.

Rhoddodd yr Ymgeisydd hefyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Arolygiaeth ar y coridor CO2 ag ail-bwrpaswyd. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y coridor wedi ei gynnwys yn y ffin llinell goch (RLB) a oedd yn bresennol yn y cwmpas AEA, ond roedd hyn ar y sail nad oedd angen unrhyw waith arno. Mae'r coridor wedi ei gadw yn yr Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) ond mae gwaith asesu pellach ar y gweill i sefydlu a oes angen unrhyw waith, a fydd yn cael ei sefydlu cyn cyflwyno'r Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu (DCO). Hysbysodd yr Ymgeisydd i'r Arolygiaeth nad oes angen unrhyw waith na hawliau ar gyfer y coridor nwy naturiol, felly cafodd ei dynnu o'r RLB.

Amlygodd yr Arolygiaeth fod y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) 2024 wedi dod i rym ar 30 Ebrill 2024 ac wedi diwygio'r rhestr o gyrff y mae angen i ymgeisydd ymgynghori â hwy, fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Cynllun Seilwaith (Ceisiadau:

Ffurflenni a Gweithdrefn Penodedig) Rheoliadau 2009, yn ogystal â chwmpas y 'prawf perthnasedd' a gymhwyswyd. Cynghorwyd yr Ymgeisydd i wirio'r sefyllfa o ran y rheoliadau a'r darpariaethau trosiannol cyn yr ymgynghoriad statudol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.

Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai angen i'r Ymgeisydd ystyried a fyddai'r newidiadau i'r RLB yn golygu bod angen sefydlu Barn Gwmpasu newydd. Ymatebodd yr Ymgeisydd y byddai'n ymgynghori â'u gynghorwyr cyfreithiol ond nid yw'n rhagweld y byddai'r newidiadau, sy'n cynnwys ychwanegu’r llwybr AILs i alluogi mân waith dros dro ar hyd y llwybr hwn, yn newid yn sylweddol y dull arfaethedig yn yr AEA ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig neu ei effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol.

**Dyddiadau ymgynghori allweddol a gweithgareddau**

Dywedodd yr Ymgeisydd cafodd yr ymgynghoriad anstatudol ei gynnal rhwng 26 Chwefror a 25 Mawrth 2024, a bod y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC) yn cael ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol, ac maent yn aros am adborth ganddynt ar hyn o bryd. Dywedodd yr Ymgeisydd fod ymgynghoriad statudol i fod i redeg o fis Medi 2024, a bydd yn cynnwys cyhoeddi cylchlythyr ymlaen llaw, a fydd yn cael ei ddilyn gan llythyrau a42, cyhoeddiad hysbysiad a48 a chynnal yr ymgynghoriad cymunedol a47 fel y nodir yn y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC).

Gofynnodd yr Arolygiaeth i’r Ymgeisydd a oedd unrhyw awdurdodau gweinyddol newydd wedi eu hychwanegu at yr ymgynghoriad o ganlyniad i’r newidiadau diweddar i’r Datblygiad Arfaethedig. Ymatebodd yr Ymgeisydd fod Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn awdurdod gweinyddol newydd a'i fod wedi ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y SoCC drafft.

Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd ddarparu crynodeb o'r ymgynghoriad anstatudol yn gynharach yn y flwyddyn. Ymatebodd yr Ymgeisydd roedd yna tua 100 o bobl a gymerodd rhan ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn bennaf o'r ardal leol. Ychwanegodd yr Ymgeisydd wnaeth y materion canolbwyntio'n bennaf ar effeithiau ecoleg, ond roedd natur yr ymgynghoriad yn cynnwys gofyn cwestiynau yn hytrach na gwneud sylwadau.

**Diweddariad ar y rhaglen cyffredinol/dyddiad cyflwyno cais**

Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd y cais am DCO yn cael ei gyflwyno yn Ch1 2025.

Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd a oeddent yn rhagweld cyflwyno unrhyw ddogfennau drafft i'w hadolygu. Dywedodd yr Ymgeisydd y gallent ofyn am adolygiad gyda'r dogfennau drafft yn debygol o gael eu cyflwyno yn gynnar yn Ch1 2025 ond byddant yn cadarnhau yn fuan.

**Lefel gwasanaeth cyn gwneud cais/trafodaeth ar ddogfennau sy’n ofynnol o dan y broses cyn gwneud cais a ddiweddarwyd:**

Hysbysodd yr Ymgeisydd yr Arolygiaeth ei fod yn bwriadu gwneud cais am y gwasanaeth cyn gwneud cais safonol, a fyddent yn darparu ymateb erbyn y dyddiad cau (10 Gorffennaf 2024). Ychwanegodd yr Ymgeisydd y byddent yn darparu Dogfen Raglen gychwynnol gyda'u ymateb.

Bydd yr Ymgeisydd yn paratoi ac yn cynnal Traciwr Materion i fwydo mewn i'r ddogfen Brif Faterion Posib ar gyfer Archwiliad, a hefyd i hysbysu’r ddogfen Crynodeb o Brif Feysydd Anghytuno.

Gofynnodd yr Ymgeisydd a allai'r Arolygiaeth ddarparu arweiniad ar ffurf a chynnwys y Ddogfen Cydymffurfiaeth Polisi a’r Ddogfen Dull Dylunio a grybwyllwyd yn y cyngor cyn gwneud cais newydd, gan nodi nad ydynt yn ofyniad gorfodol ar gyfer y lefel gwasanaeth cyn gwneud cais safonol.

Dywedodd yr Arolygiaeth y gallai'r Ymgeisydd ddymuno ymweld â thudalen we'r prosiect ar gyfer Five Estuaries i edrych ar enghraifft o Ddogfen Cydymffurfiaeth Polisi, a thudalen we'r prosiect ar gyfer Outer Dowsing i edrych ar enghraifft o Ddogfen Dull Dylunio. Nododd yr Arolygiaeth nad yw'r prosiectau hyn wedi mynd trwy archwiliad eto ac felly ni all wneud sylwadau ar ansawdd y dogfennau hyn.

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth fod y Ddogfen Cydymffurfiaeth Polisi a'r Ddogfen Dull Dylunio yn elfennau allweddol o wasanaeth gwell y broses cyn gwneid cais a ddiweddarwyd ond nid ydynt yn orfodol ar gyfer yr haen lefel gwasanaeth safonol.

**Materion eraill**

Hysbysodd yr Ymgeisydd yr Arolygiaeth ei fod wedi ymgysylltu â Chyngor Sir y Fflint ynghylch y Cytundeb Perfformiad Cynllunio yn parhau, a bod Diwydiant Sero Net Cymru bellach yn ymgysylltu â Chyngor Sir y Fflint ynghylch adnoddau.

Gofynnodd yr Arolygiaeth i’r Ymgeisydd a fu unrhyw ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru hyd yma. Ymatebodd yr Ymgeisydd fod cytundeb Gwasanaeth Cyngor Dewisol yn ei le a bod ymgysylltiad yn parhau ar bynciau allweddol gan gynnwys yr amgylchedd morol a thrwyddedu; ymgysylltu pellach ar ecoleg ddaearol a bod perygl llifogydd wedi cael ei gynllunio.

**Unrhyw fusnes arall**

Cytunodd yr Arolygiaeth a'r Ymgeisydd i gynnal y cyfarfod nesaf ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori statudol.